

JEHOFAH A CHRIST—AI RHAN O DRINDOD YDYN' NHW?

Nodyn i'r siaradwr:

Dangoswch gydag argyhoeddiad fod ffeithiau hanes a'r Beibl ill dau yn profi nad rhan o Dduwdod Trindodaidd ydi Jehofah ac Iesu

CYCHWYN “DIRGELWCH” Y DRINDOD (5 mun.)

Glynnai'r Cristionogion cynnar yn gadarn wrth y Gair ysbrydoledig fod y Tad yn oruchaf ac yn deilwng o bob addoli (Dat 15:3, 4)

'Roedden' nhw hefyd yn unedig yn credu mai Mab Duw oedd Iesu Grist, person gwahanol ac is ei safle na'i Dad (In 14:28; Phil 2:5, 6)

Yn ystod yr ail ganrif C.C. dechreuodd arweinwyr anffyddlon fabwysiadu athroniaethau Groegaidd poblogaidd gan honni eu bod yn troi paganiaid a gafodd addysg. Troesant at Blatoniaeth yn arbennig (*ti* 11-12)

Cyfunwyd athroniaethau Plato a dysgeidiaeth Philo, Iddew, i ffurfio sail athroniaeth y Drindod. Dim sail Ysgrythurol (*ti* 11)

Daethpwyd â'r athrawiaeth i mewn i'r eglwys trwy gyfres o gynghorau'r eglwys a'i mabwysiadu'n derfynol yng Nghredo Athanasiws (*ti* 8-9)

JEHOFAH—UN DUW NEU RAN O DDUWDOD TRIUNOL? (12 mun.)

Hysbysodd Duw Hollalluog ei enw Jehofah yn ystod gwrthdaro â holl dduwiau paganaidd yr Aifft, yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg C.C.C. (Ex 6:3)

Wedi gwaredu'r Israeliaid, ffurfiodd genedl gynrychioliadol a gorchymyn iddynt: “Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi” (Ex 20:3)

Hawliodd e, yr Un Jehofah, ymroddiad eiddigeddus iddo'i hun (Deut 4:24; 6:4; Nah 1:2)

Ganrifoedd yn ddiweddarach ailgyhoeddodd ei enw a chyhoeddi na roddai ei ogoniant i NEB arall. Tyngodd iddo'i hun mai iddo ef yn unig y 'byddai pob glin yn plygu' (Eseia 42:8; 45:23)

Rhodddwyd i'r Israeliaid yr anrhydedd o fod yn dystion iddo, 'Nad oedd duw wedi ei greu o'm blaen,' dim un ar ei ôl, 'Myfi yw Jehofah' (Eseia 43:10, 11)

Y gair Hebraeg am Dduw ydi *elohim* (lluosog) y dywed rhai ei fod yn undod cyfansawdd o dri pherson yn un. Fodd bynnag, yn ôl arfer yr Hebraeg, defnyddir *elohim* “bron yn ddiethriad gyda thraethiad berfol unigol, ac mae'n cymryd priodoledd ansoddeiriol unigol” (*ti* 13)

Nid lluosogrwydd personau, ond 'lluosog dwysaol' yn dynodi mawredd a mawrhydi

Mynnodd Jehofah nad oedd i'w rannu'n grŵp o agweddau fel y gwnâi'r paganiaid gyda'r Baalim. Byddai hyn hefyd yn gwahardd ei aseiniu'n athronyddol yn rhan o drindod o dduwiau (Barn 3:7; *it-1* 229)

Cydnabu Paul fod llawer o dduwiau paganaidd, ond dim ond un (Gwir) Dduw, y Tad, ac un Arglwydd, Iesu. Dau berson gwahanol, nid dau dduw yn un (1Cor 8:5, 6)

Ymhen amser bydd Jehofah yn 'frenin ar yr holl ddaear, Un brenin, a'i enw'n un.' Bydd pawb yn addoli 'un Duw a Thad sydd goruwch pawb.' Dim cysylltiad â thrindod (Sech 14:9; Eff 4:6)

IESU GRIST—MAB DYRCHAFEDIG, OND IS NA'I DAD (10 mun.)

Iesu Grist ydi unig-anedig Fab Duw (In 1:14)

Bodolai yn gynddynol yn y nefoedd, sef Logos, y Gair (In 1:1)

Ei ddefnyddio i greu pob peth arall ond ef oedd 'cyntafanedig pob creadigaeth' (In 1:3; Col 1:15)

Felly, yn wahanol i'r Tad sydd wedi bodoli erioed, 'roedd i Iesu gychwyniad

Penodwyd e gan ei Dad yn Ben-Tywysog a Llywodraethwr i weithredu bwriadau Jehofah (Col 1:16, 20; 1In 4:9)

Ef ydi cynrychiolydd Jehofah i unioni'r holl broblemau a godwyd gan wrthryfel Satan

Ef yw'r sylfaen y bydd Jehofah yn adeiladu gweinyddiaeth arni i ddifa Satan ac uno pob peth (Heb 2:14; Eff 1:8-10)

Penodwyd e'n Frenin y llywodraeth Theocrataidd gan Jehofah (Dan 7:13, 14)

Daeth yn Waredwr dyn drwy ei roi ei hun yn aberth pridwerthol; trwyddo ef y daw atgyfodiad y meirw (In 11:25; Act 10:42; 1Tim 2:5, 6)

Trwy awdurdod y Tad yn unig y gallai Iesu ddweud yn eirwir, “Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.” (In 14:6) Nid oddi wrtho ef y tarddodd hyn ac nid ef oedd y ffynhonnell

Anrhydeddwyd ef yn fawr a'i ddyrchafu ond nid i fod yn gydradd â'r Tad (*ti* 19)

DIM CYDRADDOLDEB TRI-YN-UN RHWNG Y TAD A'R MAB (7 mun.)

'Wnaeth Iesu erioed honni cydraddoldeb gyda'i Dad ond cyhoeddi mai o Dduw yr oedd ei awdurdod (In 5:19, 21, 24; 8:28)

Cyhoeddodd iddo gael 'ei anfon' a bod ei neges 'yn eiddo'r hwn a'i hanfonodd.' Mae'r un sy'n anfon bob amser yn fwy na'r anfonedig (Lc 4:18; In 7:16, 18; 13:16, 17)

Hefyd fel Mab, dysgodd Iesu fod yn ufudd drwy'r pethau a ddioddefodd. I bwy 'roedd Iesu'n ufudd? (In 7:28; 8:29, 42; Heb 5:8)

Ac yntau'n Ben y gynulleifda, mae Iesu bob amser yn cynnal trefn theocrataidd, gan ei ddarostwng ei hun i Jehofah fel ei Ben (1Cor 11:3; 15:28)

'Roedd Iesu bob amser yn gweddio ar ei Dad. Dim angen os mai ef ei hun oedd Duw. Ni chyfeiriodd weddiau ato'i hun (Mth 4:10; 6:9; Heb 2:12)

Dim cefnogaeth Ysgrythuroi i gydraddoldeb rhwng y Tad a'r Mab

BETH AM DESTUNAU O'R BEIBL YR HONNIR EU BOD NHW'N PROFI NEU'N CEFNOGI CRED YN Y DRINDOD? (6 mun.)

Fel y gwelwyd o'r wybodaeth a gyflwynwyd, 'dyw tystiolaeth Feiblaidd na hanesyddol ddim yn cadarnhau dysgeidiaeth y Drindod

Peth cyffredin yw i destunau a ddefnyddir i gefnogi athrawiaeth y Drindod fod wedi'u camddehongli neu eu tynnu o'u cyd-destun (eglw'ruch yn fyr)

Ioan 10:30 (Cyfeiriwch at Ioan 17:21, 22 i ddangos beth a olygai Iesu)

Ioan 1:1 (Ymgynghorwch ag erthygl atodiad 6A yn *Rbi8*)

Ioan 8:58 (Gweler *ti 26*)

Cofiwch mai cyfeirio at ddau berson, nid tri mae'r testunau hyn

'Does dim un testun yn y Beibl yn dweud fod Duw, Iesu, a'r ysbryd sanctaidd yr un o ran sylwedd, grym, a thragwyddoldeb

BYDD JEHOFAH YN TEYRNASU YN ORUCHAF I DRAGWYDDOLDEB (5 mun.)

Mae digwyddiadau'n profi i Jehofah feddiannu ei allu mawr ar ddiwedd Amser y Cenedloedd ym 1914 a dechrau arfer ei awdurdod brenhinol drwy gyfrwng y Deyrnas Feseianaidd (Dat 11:17)

Yn raslon fe wahoddodd ei Fab ffyddlon a theyrngar i rannu'r Deyrnas honno y mae Jehofah yn Oruchaf ynddi. Rhoddir anrhydedd i'r Mab gan y Tad (Dan 4:25; Dat 11:15; 12:10)

Yn gariadlon fe ddewisodd 144,000 eraill o blith y ddynolryw i rannu'r orsedd gyda Iesu Grist (Dat 14:1; 20:4, 6)

Y drefn a'r gyfundrefn theocrataidd ydi: (1) Jehofah, Arglwydd Frenin Goruchaf; (2) Iesu Grist, Brenin teyrngar a dyrchafedig; (3) 144,000 cyd frenhinoedd ac offeiriaid; (4) yr holl greaduriaid darostyngedig eraill

Dim trindod o Dduwiau, dim cydraddoldeb â'r Arglwydd Frenin Jehofah, pob peth yn y nef a'r ddaear yn ildio'n gytun i deyrnasu Theocrataidd (1Cor 15:24, 28)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)